Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe/Learn Welsh Swansea Bay Region

Academi Hywel Teifi
Adeilad Talbot
Prifysgol Abertawe
Campws Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe/Learn Welsh Swansea Bay Region

Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe (DCABA) yn 2016 o ganlyniad i ailstrwythuro sectorol a sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (GDCG). Mae DCABA yn un o 10 darparwr Dysgu Cymraeg y Ganolfan ac mae'n gyfrifol am ddarparu cyrsiau yn siroedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Lleolir DCABA o fewn Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe ac mae Pennaeth DCABA yn atebol i Ddirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol ar gyfer y Gymraeg, ei Threftadaeth a'i Diwylliant, a Chyfarwyddwr Academi Hywel Teifi y brifysgol. Mae'r ddarpariaeth yn derbyn grant bloc o £901,000 yn ystod 2025-2026 gan y GDCG.

Mae DCABA yn cynnig cyrsiau prif ffrwd Cymraeg i oedolion o lefel mynediad i hyfedredd ar-lein ac wyneb yn wyneb. Cynigir cyrsiau atodol ar benwythnosau, cyrsiau wythnos o hyd, a chyrsiau pwrpasol i gynulleidfaoedd penodol gan gynnwys Cymraeg yn y Cartref. Mae DCABA yn darparu cyrsiau i weithleoedd amrywiol trwy ddarpariaeth Cymraeg yn gweithle a'r cynllun Cymraeg Gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, rhanbarth rygbi Y Gweilch, Cyngor Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae DCABA hefyd yn darparu gwersi i bron i 97 o staff Prifysgol Abertawe eleni dan y cynllun Cymraeg Gwaith: Addysg Uwch. Yn ddiweddar, mae'r darparwr wedi ehangu ei gyfrifoldebau i gynnwys datblygiad iaith Gymraeg y gweithlu addysg yn ei ddalgylch arferol ac ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.

Dros gyfnod o dair blynedd mae niferoedd dysgwyr wedi codi ar ôl disgyn yn sylweddol yn dilyn y pandemig, ac erbyn adeg yr arolygiad roedd dros 1,600 o ddysgwyr unigol gan y darparwr.

Cyflogir 17 o staff craidd yn ogystal â 26 tiwtor cysylltiol. O'r staff craidd, mae pedwar o'r uwch staff yn swyddogion llawn amser, gan gynnwys swyddog ansawdd, dau uwch diwtor-drefnydd ac un swyddog datblygu. Cyflogir un uwch diwtor-trefnydd, un swyddog datblygu ac un swyddog prosiect ar sail rhan amser. Pennaeth DCABA sy'n gyfrifol am arwain y ddarpariaeth yn strategol ac yn weithredol.

## Crynodeb

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn ar draws y lefelau yn eu medrau Cymraeg o'u mannau cychwyn. Mae llawer yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi gan ddod yn siaradwyr gweithredol cynyddol hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae'r darparwr yn llwyddo i drefnu a hwyluso cyfleoedd buddiol iawn i ddysgwyr defnyddio eu hiaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a chyrsiau atodol, fel cyrsiau preswyl a theithiau i glywed yr iaith mewn sefyllfaoedd naturiol mewn ardaloedd gyda niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Mae DCABA yn llwyddo i greu darpariaeth gynhwysol lle mae'r dysgwyr yn cael eu parchu a'u cefnogi'n effeithiol. Mae'r darparwr yn gwneud addasiadau i'r ddarpariaeth gan gynnwys elfennau arbenigol cefnogol i hwyluso profiad dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Enghraifft nodedig o'r gwaith hwn yw'r arweiniad ar gyfer tiwtoriaid ar sut i gefnogi dysgwyr sydd â chyflyrau niwroamrywiol.

Mae tiwtoriaid yn darparu amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol i ddysgwyr, ac o ganlyniad mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau eu profiadau dysgu, boed mewn dosbarthiadau wyneb yn wyneb neu rithiol.

Mae canran y cyrsiau a gynigir ar-lein gan y darparwr wedi aros yn uchel ers cyfnod y pandemig a thros gyfnod o dair blynedd mae llawer o'i gyrsiau wedi bod ar-lein. Adeg yr arolygiad, roedd mwyafrif y cyrsiau ar-lein ar draws y ddarpariaeth. Serch hynny, nid yw'r darparwr wedi gwerthuso a oes gwahaniaeth rhwng effaith y dulliau gwahanol o ddarparu cyrsiau ar greu siaradwyr Cymraeg gweithredol.

Mae llawer o diwtoriaid yn cynllunio a strwythuro gwersi yn fedrus gan ddiwallu anghenion ieithyddol y dysgwyr yn llwyddiannus. Maent yn fodelau iaith cryf sydd yn effeithiol wrth gyflwyno iaith ac atgyfnerthu dealltwriaeth eu dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw ychydig o diwtoriaid yn ddigon medrus eu harddulliau dysgu neu'n darparu cyfleoedd digon bwriadus i ddysgwyr adalw dysgu blaenorol i gof.

Ar y cyfan, mae'r darparwr yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella, ond nid yw uwch reolwyr yn blaenoriaethu'r prif feysydd i'w gwella yn ddigon pwrpasol. Nid ydynt yn llwyddo i sicrhau cysondeb ar draws y ddarpariaeth gan ddefnyddio tystiolaeth o'r arsylwadau i wella arferion addysgu a pherfformiad ychydig o diwtoriaid nad ydynt yn gyson arddel dulliau addysgu llwyddiannus y sector yn ddigon effeithiol. Yn ogystal, nid yw pob tiwtor yn manteisio'n ddigonol ar gyfleoedd i fynychu dysgu proffesiynol pwysig.

Er bod rheolwyr a threfnyddion yn craffu ar ddata’n addas ar lefel weithredol, er enghraifft i wella cyfraddau cwblhau a dilyniant, nid yw uwch reolwyr yn dadansoddi data’n ddigon miniog i gefnogi penderfyniadau strategol i wella’r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn cynllunio’n briodol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol trwy gynnig darpariaeth amrywiol gan gynnwys cyrsiau prif ffrwd, cyrsiau sectorol Cymraeg Gwaith, Cymraeg yn y Cartref, Cymraeg yn y gweithle, a chyrsiau hyfforddi i’r gweithlu addysg. Mae ganddynt weledigaeth glir, sy’n gyson â nodau’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sef ‘creu cymuned o siaradwyr Cymraeg annibynnol a hyderus’.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r darparwr barhau i wella:

A1 Hyrwyddo ac arddel dulliau mwyaf effeithiol y sector i sicrhau bod ansawdd addysgu pob tiwtor yn gyson uchel

A2 Mireinio hunanwerthuso er mwyn blaenoriaethu meysydd i’w gwella’n strategol

A3 Gwella dealltwriaeth a defnydd o ddata gan uwch reolwyr i ddadansoddi tueddiadau, a gwella cynllunio strategol bwriadus

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion yn cael ei werthuso yn ystod yr arolygiad llawn canlynol o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

# Prif ganfyddiadau

## Addysgu a dysgu

O'u mannau cychwyn gwahanol, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau Cymraeg. Ar draws y lefelau, ac yn y ddarpariaeth wyneb yn wyneb ac ar-lein, maent yn datblygu hyder a rhuglder yn gynyddol lwyddiannus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae'r cyfleoedd amrywiol mae dysgwyr yn eu derbyn o fewn y gwersi a'r ddarpariaeth atodol ac anffurfiol, yn cefnogi'r dysgwyr i ymarfer siarad Cymraeg i safon da.

Ar draws y lefelau, mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau gwrando a siarad fel rhan o'u taith iaith. Mae tiwtoriaid yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr wrando ar gyflwyniadau gwersi ac ar glipiau digidol er mwyn atgyfnerthu geirfa ac i ddwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o iaith mewn cyd-destunau ehangach. Mae llawer o ddysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn siarad yn frwdfrydig ac yn defnyddio cymalau byrion a chyfarchion. Wrth i'r dysgwyr ddatblygu eu medrau, maent yn defnyddio ystod gyfoethog o eirfa a phatrymau iaith yn hynod lwyddiannus, er enghraifft wrth gymharu Cymru â gwledydd eraill. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ansoddeiriau a moddau'r ferf wrth sgwrsio am newyddion cyfredol yn effeithiol. Mae hyn, ynghyd â disgwyliadau uchel llawer o diwtoriaid, yn rhoi hyder i ddysgwyr roi cynnig ar siarad Cymraeg yn unol â'u lefel.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd perthnasol gyda'u medrau darllen. Mae clybiau darllen yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr drafod a gwerthfawrogi testunau. Mewn sesiynau mae tiwtoriaid yn defnyddio testunau sy'n cyd-fynd â lefel y dysgwyr yn effeithiol, er enghraifft wrth i ddysgwyr lefel mynediad ddarllen a pherfformio deialogau. Wrth i fedrau darllen dysgwyr ddatblygu, mae tiwtoriaid sy'n dysgu ar y lefelau canolradd ac uwch, yn darparu testunau mwy heriol yn briodol. O ganlyniad, mae dysgwyr sy'n dysgu ar y lefelau uwch, yn hyderus wrth ddatblygu eu medrau darllen gan ehangu eu gorwelion am Gymru a'r byd ehangach.

Mae llawer o ddysgwyr ar y lefelau mynediad a sylfaen yn dechrau adnabod a defnyddio geiriau a chymalau byrion trwy dasgau gwaith cartref perthnasol. Dros amser a thrwy ymarfer ysgrifennu addas, maent yn datblygu eu medrau i ysgrifennu darnau sy'n fwy ymestynnol. Mewn gweithgareddau ysgrifenedig ar gyfer dysgwyr sydd ar y lefelau uwch, darperir cyfleoedd creadigol iddynt ddefnyddio idiomau a dywediadau Cymraeg, fel 'man gwyn man draw' a 'diwedd y gân yw'r geiniog'. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at gefnogi'r dysgwyr i ddefnyddio iaith gyfoethog wrth ysgrifennu.

Mae tiwtoriaid yn darparu amgylchedd dysgu cefnogol a chynhwysol i ddysgwyr, boed wyneb yn wyneb neu ar-lein, i'w cefnogi i fwynhau dysgu Cymraeg a gwneud cynnydd yn

eu medrau. Mae dysgwyr yn canolbwyntio ar eu dysgu'n llwyddiannus, ac wrth fagu hyder, maent yn datblygu i fod yn siaradwyr gweithredol mewn amrywiol gyd-destunau. Mae gan bron pob dysgwr agweddau cadarnhaol at ddysgu Cymraeg ac maent yn gweld budd o ddefnyddio'r iaith y tu fewn a thu allan i'r gwersi, a bod yn ddwyieithog.

Nodwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r berthynas waith adeiladol a chefnogol rhwng y tiwtoriaid a'r dysgwyr. Mae gan diwtoriaid ymwybyddiaeth gref o anghenion a diddordebau personol dysgwyr, sy'n cryfhau'r broses addysgu a dysgu yn fuddiol. Mae'r ddarpariaeth i gefnogi dysgwyr sy'n aelodau o'r gweithlu addysg, yn cael ei chynllunio'n fwriadus gan diwtoriaid profiadol. Mae hyn yn golygu bod y gwersi yn cael eu teilwra'n ofalus er mwyn cefnogi'r staff gyda'u anghenion ieithyddol mewn cyd-destun proffesiynol.

Trwy fethodoleg bwrpasol llawer o diwtoriaid, mae dysgwyr yn canolbwyntio yn effeithiol ac yn magu hyder i gyd-ddysgu gyda'u cyfoedion wrth ddatblygu a chymhwyso eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, ar adegau, nid yw ychydig o diwtoriaid yn darparu cyfleoedd digon bwriadus i ddysgwyr adalw gwybodaeth i gof fel sylfaen i'r dysgu dilynol. Mae hyn, yn ei dro, yn arafu cynnydd ychydig o ddysgwyr i ddatblygu eu medrau yn adeiladol dros amser.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio'r Gymraeg fel prif gyfrwng y gwersi yn llwyddiannus. Maent yn fodelau iaith medrus ac yn cyflwyno gwybodaeth am iaith yn gynnil a dealladwy i ddysgwyr wrth iddynt symud trwy'r lefelau. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at hyrwyddo'r Gymraeg gyda'r dysgwyr ac yn rhoi'r hyder iddynt ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae llawer o diwtoriaid yn cynllunio a strwythuro gwersi yn fedrus gan ddiwallu anghenion ieithyddol y dysgwyr yn llwyddiannus. Yn yr arferion gorau, mae tiwtoriaid yn rhannu nodau'r gweithgareddau yn glir ac yn symud y dysgu ymlaen ar gyflymder sy'n addas i gam datblygu ieithyddol y dysgwyr. Yn yr arferion llai effeithiol, nid yw tiwtoriaid bob amser yn ddigon medrus eu harddulliau addysgu, er enghraifft mae tueddiad iddynt gyfieithu geiriau a chymalau i'r Saesneg yn hytrach na chaniatáu amser i ddysgwyr feddwl a datblygu yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio dulliau effeithiol o ddarparu adborth llafar i ddysgwyr ac yn holi'r dysgwyr yn grefftus. Mae'r tiwtoriaid yn meithrin eu chwilfrydedd ac yn eu cymell i gyfoethogi eu geirfa a'u patrymau iaith yn fuddiol. At ei gilydd, mae'r adborth sy'n cael ei ddarparu ar waith ysgrifenedig dysgwyr yn briodol. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae sylwadau tiwtoriaid yn helpu dysgwyr i adnabod y camau nesaf er mwyn gwneud cynnydd. Er hyn, yn yr arferion llai effeithiol, nid yw ychydig o diwtoriaid yn rhoi adborth sy'n darparu canllawiau digon clir i gefnogi'r dysgwyr i wella agweddau penodol o'u gwaith ysgrifenedig.

Mae dysgwyr yn elwa o'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'u Cymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol yn effeithiol. Mae mwyafrif y dysgwyr yn mwynhau mynychu gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion ieithyddol a diddordebau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae gan ddysgwyr gyfle i ddatblygu eu hiaith trwy brofiadau creadigol gan ymaelodi â Chôr y Dysgwyr a mynychu cyrsiau ysgrifennu creadigol. Trwy brofiadau gwerthfawr fel cyrsiau preswyl a nosweithiau cymdeithasol mae dysgwyr yn magu hyder i siarad Cymraeg gyda'u cyfoedion, sy'n cyfrannu'n gadarn at eu balchder o fod yn siaradwyr gweithredol. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn llwyddo i ddefnyddio eu medrau Cymraeg y tu allan i wersi.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn ddarpariaeth gynhwysol lle mae'r dysgwyr yn cael eu parchu a'u cefnogi'n effeithiol. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau eu profiadau dysgu, boed mewn dosbarthiadau wyneb yn wyneb neu rithiol.

Mae'r darparwr yn darparu gwybodaeth fuddiol i ddarpar ddysgwyr ac arweiniad defnyddiol iddynt ddewis y cwrs cywir. Mae'r tîm canolog yn cyd-weithio'n effeithiol â nifer o bartneriaid ar draws siroedd Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot i rannu gwybodaeth am y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn yr ardal. Er enghraifft, defnyddir dulliau digidol i rannu gwybodaeth am gyrsiau, ac mae staff yn mynychu digwyddiadau mewn gwahanol ardaloedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar gael. Maent yn paratoi pecyn cynhwysfawr o wybodaeth sy'n rhoi amlinelliad o'r ddarpariaeth, gan gynnwys gostyngiadau i wahanol grwpiau o ddysgwyr.

Mae'r darparwr yn hwyluso ail-gofrestru yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys paratoi rhaglen ddilyniant yn amserol, cyflwyniad i'r lefel nesaf yn ystod gwersi olaf y flwyddyn a phrosbectws penodol ar gyfer pob lefel. Mae hyn yn dylanwadu yn gadarnhaol ar ymwybyddiaeth dysgwyr o'r camau dilyniant sydd ar gael iddynt.

Mae'r darparwr yn cynnal ymagwedd hyblyg tuag at ddysgwyr sy'n dymuno newid cwrs, gan addasu'n fuddiol i sicrhau bod y dysgwyr yn medru parhau ar eu taith iaith. Mae cefnogaeth ddefnyddiol ar gael i ddysgwyr yn ôl yr angen, a mynegant eu gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a ddarperir iddynt. Er enghraifft, ceir sesiynau dal i fyny trwy drefniant ar gyfer unigolion sydd yn absennol o wersi. Mae tiwtoriaid yn craffu ar lefelau presenoldeb yn gyson er mwyn medru ymateb yn amserol pan fo angen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion penodol, gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol, yn gadarn. Ceir amryw o gyfleoedd i ddysgwyr nodi unrhyw anghenion a rhannu gwybodaeth ynglŷn â sut maent yn dysgu orau, ac unrhyw elfennau allai effeithio ar eu cynnydd. Mae arweinwyr a thiwtoriaid yn cymryd camau priodol i addasu'r dulliau addysgu, boed ar lein neu wyneb yn wyneb, i sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo'n gartrefol

a hyderus yn eu dosbarthiadau. Enghraifft nodedig o’r gwaith hwn yw’r arweiniad ar gyfer tiwtoriaid ar sut i gefnogi dysgwyr sydd â chyflyrau niwroamrywiol. Mewn trafodaethau, mae dysgwyr yn pwysleisio eu gwerthfawrogiad o’r modd mae tiwtoriaid yn gweithredu i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Mewn achosion o ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) penodol, mae’r darparwr yn gwneud addasiadau i’r ddarpariaeth gan gynnwys elfennau arbenigol cefnogol i hwyluso profiad y dysgwyr. Mae’r darparwr yn effeithiol wrth addasu darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd a nam ar eu clyw neu nam ar eu golwg. Mae’r darparwr yn gwrando ar yr unigolyn, ac yn derbyn arweiniad arbenigol gan adrannau perthnasol y brifysgol, er mwyn darparu profiadau dysgu cyfartal.

Mae DCABA yn sicrhau addasrwydd lleoliadau dysgu wyneb yn wyneb trwy gwblhau asesiadau risg. Mae’r rhain, yn eu tro, yn cael eu gwirio gan y tiwtoriaid sydd yn dysgu ar y safleoedd. Mae hyn yn sicrhau bod gan y tiwtoriaid y wybodaeth angenrheidiol am eu lleoliadau dysgu.

Mewn gwersi, mae ymdeimlad hynod gartrefol a pharchus. Mae dysgwyr yn nodi eu bod yn teimlo’n ddiogel, boed hynny mewn gwers wyneb yn wyneb neu rithiol. Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu gwersi, ac yn gwerthfawrogi’r disgwyliadau uchel sydd gan diwtoriaid ohonynt. Mae hyn yn magu eu hyder, ac yn cynnal eu lles yn llwyddiannus.

Mae’r ddarpariaeth yn hyrwyddo agweddau cynhwysol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan feithrin cymuned ddysgu lle mae pob unigolyn yn cael ei barchu.

Mae dysgwyr yn derbyn llyfryn croeso cynhwysfawr ar ddechrau cwrs. Fel rhan o’r llyfryn mae adran sy’n cynnwys yr amrywiol bolisïau sydd gan y darparwr. Mae polisi diogelu yn cynnwys canllaw defnyddiol i’r dysgwyr yn nodi â phwy i gysylltu mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau pwrpasol er mwyn ymateb i unrhyw aflonyddu petai’n codi. Maent yn gweithio’n gydwybodol i herio stereoteipiau ar sail hunaniaeth ac yn gweithredu polisi gwrth-fwlian yn briodol. Yn sgil hyfforddiant rheolaidd, mae gan staff dealltwriaeth gadarn o’r camau y dylent eu cymryd petai ganddynt bryder am unrhyw agwedd ar ddiogelwch neu amheuaeth fod dysgwyr mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Mae prosesau recriwtio staff yn dilyn gweithdrefnau recriwtio’r brifysgol ac mae hyn yn darparu elfen o sicrwydd a chysondeb yn eu gweithredu. Mae trefniadau’r darparwr ar gyfer diogelu'r dysgwyr yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae’r darparwr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddysgwyr fynychu fforymau lle mae cyfle iddynt rannu barn ac yn defnyddio holiaduron yn addas i sicrhau gwybodaeth gyfredol ynglŷn â barn dysgwyr am eu cyrsiau. Mae canlyniadau’r adborth hwn yn cael eu defnyddio yn bwrpasol i ddatblygu’r ddarpariaeth er budd y dysgwyr ond nid yw’r darparwr yn amlygu’r camau gweithredu sy’n deillio o’u hadborth i’r dysgwyr.

## Arwain a gwella

Mae gan arweinwyr Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe (DCABA) weledigaeth glir, sy'n gyson â nodau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sef 'creu cymuned o siaradwyr Cymraeg annibynnol a hyderus'.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Cynigir ystod briodol o ddarpariaeth gan gynnwys cyrsiau prif ffrwd, cyrsiau sectorol Cymraeg Gwaith, Cymraeg yn y Cartref, Cymraeg yn y gweithle, cyrsiau preswyl a chyrsiau hyfforddi i'r gweithlu addysg. Gwersi wythnosol yw rhan helaeth y ddarpariaeth.

Mae'r darparwr wedi ei leoli o fewn Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe ac mae'n elwa o gefnogaeth werthfawr y Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol Y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth a Chyfarwyddwr Academi Hywel Teifi, sydd a phrofiad yn y sector Dysgu Cymraeg. Cyfranna'r darparwr lai na 15% o'i gyllid a ddyrannwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i Academi Hywel Teifi. Defnyddir y brigdoriad hwn i gyfrannu'n fuddiol at hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y brifysgol. Mae'r brifysgol yn darparu cefnogaeth ymarferol a defnyddiol, er enghraifft hyfforddiant a gwasanaethau adnoddau dynol.

Mae'r darparwr yn dylanwadu ar ddatblygu'r Gymraeg trwy'r brifysgol a thu hwnt yn gadarnhaol, yn unol â gweledigaeth Academi Hywel Teifi. Mae'n cynnig cyrsiau i fyfyrwyr meddygaeth yn ogystal â chyflawni swyddogaeth bwysig o ran hyfforddi darpar athrawon uwchradd a chynradd. Mae'r gwaith hwn yn strategol bwysig i ddatblygu'r Gymraeg o fewn y gyfundrefn addysg statudol ac yn mynd law yn llaw â gwaith y darparwr o gynnig hyfforddiant i'r gweithlu addysg yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae rheolwyr DCABA yn rheoli adnoddau'r darparwr, yn cynnwys lefelau priodol o staffio ac adnoddau dysgu a lleoliadau yn briodol. Mae gwariant yn cael ei fonitro'n ofalus ac nid yw'n sylweddol uwch neu'n is na'r gyllideb ddirprwyedig flynyddol. Mae'r pennaeth yn gwybod beth yw costau gweithgareddau presennol ac yn eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gost-effeithiol.

Mae penderfyniadau ar wariant a chynllunio ariannol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau strategol a chynllunio'r darparwr ar gyfer gwelliant. Er enghraifft i gynyddu ymrestriadau a chyfraddau cwblhau a dilyniant.

Oherwydd y gwaith strategol hwn, mae ymrestriadau wedi codi dros gyfnod o dair blynedd ac erbyn adeg yr arolygiad roedd 1653 o ddysgwyr unigryw i gymharu â 1447 erbyn diwedd 2024-25. Trwy gynllunio bwriadus a marchnata pwrpasol, mae'r darparwr wedi llwyddo i gynyddu cyfraddau cwblhau a dilyniant yn sylweddol. Erbyn hyn, mae llawer o ddysgwyr

yn cwblhau eu cyrsiau ac yn symud ymlaen i gyrsiau dilynol gyda thua thri chwarter ohonynt yn symud i fyny lefel.

Mae canran y cyrsiau a gynigir ar-lein gan y darparwr wedi aros yn uchel ers cyfnod y pandemig a thros gyfnod o dair blynedd mae llawer o'i gyrsiau wedi bod ar-lein. Adeg yr arolygiad, roedd mwyafrif y cyrsiau ar-lein ar draws y ddarpariaeth. Serch hynny, nid yw'r darparwr wedi gwerthuso a oes gwahaniaeth rhwng effaith y dulliau gwahanol o ddarparu cyrsiau ar greu siaradwyr Cymraeg gweithredol.

Cynigia'r darparwr raglen fuddiol o ddysgu atodol ac anffurfiol gyda mwyafrif y dysgwyr yn mynychu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddefnyddio'u medrau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau, yn cynnwys gyda siaradwyr Cymraeg rhugl, er enghraifft clybiau darllen, cyrsiau penwythnos, sesiynau adolygu, Sadyrnau siarad, sesiynau ysgrifennu creadigol a theithiau i ardaloedd Cymraeg eu hiaith. At ei gilydd, ychydig o ddysgwyr sy'n sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion gyda bron pob un yn llwyddo.

Mae'r gweithgor cynllunio'n cyfarfod yn fisol i drafod materion gweithredol a strategol. Mae'r aelodaeth yn cynnwys y pennaeth, yr uwch-diwtoriaid, swyddogion datblygu, y swyddog data a gweinyddiaeth a'r swyddog marchnata. Mae hyn yn rhoi cyfle gwerthfawr iddynt gyflwyno adroddiadau a chynllunio materion amrywiol, gan gynnwys gwaith gweinyddol a meysydd penodol.

Ar y cyfan, mae rheolwyr a threfnyddion yn defnyddio data'n addas i ddatblygu eu meysydd cyfrifoldeb penodol. Serch hynny, yn gyffredinol, nid yw data yn cael ei ddadansoddi'n ddigon effeithiol i yrru penderfyniadau ynglŷn â chynllunio ar gyfer gwella ar draws y ddarpariaeth. Nid yw rheolwyr yn defnyddio a dadansoddi data a thueddiadau ymrestru yn ddigon manwl i werthuso sut i wella cynllunio, marchnata a gweithredu'r ddarpariaeth yn ei chyfanrwydd.

Mae'r swyddog ansawdd yn gweithredu'n frwdfrydig i gysoni prosesau sicrhau ansawdd a chynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae wedi cyflwyno arsylwi triongl rhwng cymheiriaid sydd yn datblygu ethos o gydweithio proffesiynol a rhannu arfer da yn fuddiol. Mae'r cylch arsylwi yn llwyddo i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella'n briodol ac mae rheolwyr yn mynd i'r afael ag enghreifftiau o arfer aneffeithiol iawn yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt yn llwyddo i sicrhau cysondeb ar draws y ddarpariaeth gan ddefnyddio tystiolaeth o'r arsylwadau i wella arferion addysgu a pherfformiad ychydig o diwtoriaid nad ydynt yn gyson arddel dulliau addysgu llwyddiannus y sector yn ddigon effeithiol.

Ar y cyfan, mae'r darparwr yn nodi ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella'r ddarpariaeth yn addas. Fodd bynnag, nid yw uwch reolwyr yn blaenoriaethu'r prif feysydd i'w gwella yn y dysgu ac addysgu yn ddigon pwrpasol.

At ei gilydd, mae'r darparwr wedi mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn yr arolygiad blaenorol yn briodol, er enghraifft, trwy gynhyrchu adnoddau electronig defnyddiol fel fideos gyda thiwtoriaid yn cyflwyno cyrsiau mynediad a sylfaen sy'n cyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r rheolwyr wedi llwyddo i weithredu argymhelliad i wella adborth ar waith ysgrifenedig dysgwyr yn llawn gan fod anghysondeb mewn arferion tiwtoriaid gwahanol yn parhau.

Mae'r darparwr yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant gwerthfawr trwy'r adnodd cenedlaethol Academi yn ogystal â chyrsiau i ddarpar diwtoriaid i gwrdd â'r galw i recriwtio tiwtoriaid newydd. Serch hynny, nid yw pob tiwtor, yn arbennig tiwtoriaid cysylltiol, yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant yn ddigonol. Yn ogystal, nid yw gweithdrefnau a disgwyliadau'r darparwr o reolwyr llinell yn ddigon pendant o ran sicrhau presenoldeb tiwtoriaid mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol.

Mae arweinwyr Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe wedi datblygu diwylliant ac ethos cynhwysol sy'n cefnogi cynnydd a lles dysgwyr yn effeithiol. Oherwydd ymroddiad staff ar bob lefel mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi ffurfiol gan ddod yn siaradwyr gynyddol hyderus a gweithredol.

## Cydymffurfiaeth statudol

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu dysgwyr yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddysgwyr…’* neu *‘ychydig iawn o ddysgwyr…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026